113.6.679

# CERDD GOFAWL

AM Y DIWEDDAR

# BARCH. JOHN PHILLIPS,

## DREWEN,

(MAB Y PARCH. T. PHILLIPS, D. D., NEUADDLWYD,)

Yr hwn a fu farw yn Lime-Regis, Dorsetshire, y 23ain o Dachwedd, 1834, yn 29 oed.

---

" *Gwynfydedig yw y Meirw y rhai sydd yn marw yn yr Arglwydd.*"

---

'Uniawn y farn a wna fo—
'Duw Funer gwnaed a fyno.'—GRO. OWAIN.

---

## Gan JOHN JONES, (IOLYN EBRILL.)

---

Bod fy Mrawd Parchedig wedi ymadael a'r fuchedd hon sydd wirionedd anwadadwy—Iddo ef a minnau gyfrinachu a theithio llawer gyda'n gilydd sydd ffaith sicr— caf ei weled, ei glywed, a mwynhau ei gyfrinach byth yr ochr hyn sydd beth hollol annisgwyliadwy—Y caf ei weled ar ardaloedd gwynfyd sy dra gobeithiol genyf—Bod lluoedd a'u calonau yn hiraethlawn ar ei ol a brofir yn rhwydd—Ei fod yn awr yn uchel mewn gogoniant yw crediniaeth ei holl gyfeillion—Ei fod yn meddu galluoedd a synwyrau cryfion fel dyn, rhinweddau a grasusau amlwg fel Cristion, a doniau a chymmwysderau helaeth fel Gweinidog, a wirir gan bawb a'i hadwaenai. Nid hawdd cael neb yn llawnach o nodweddau cyfaill na Mr. P. Treuliodd ei oes fer mewn ffyddlondeb yn ngwinllan ei Arglwydd—Gwnaeth lawer mewn ychydig. Cofir yn hir am dano ar hyd broydd a bryniau Cymru. I'w Weddw, i'w Dad a'i Fam a'i Chwiorydd, a'i Gyfeillion oll y byddo tangnefedd Duw.

P———r. M. R.

J. L. BRIGSTOCKE, ARGRAFFYDD, CAERFYRDDIN.

1835.

# CERDD GOFAWL, &c.

1 DEFFRO f' Awen, deffro 'n gymmen,
  Eilia 'n gywrain Alar Gân,
Fal bo sain dy odlau llachar
  Dros y ddaear liwgar lân;
Dos i ystyr llawn dy destyn,
  Dos yn sydyn iesin iaith,
Mewn rheolau golau gwiwlan,
  Uniawn anian at dy waith.

2 Duw trag'wyddol--hollol allu,
  'R hwn sy'n gorlywyddu'r byd,
Sydd a'i ffyrdd uwchlaw gwybodau
  Engyl golau'r nefoedd glyd,
Mae'n gweithredu hwnt i'r lleni,
  Mewn tywyllni dirfawr iawn,
Uwch dirnadaeth ëang helaeth,
  Yr holl greadigaeth lawn.

3 Ior y bydoedd, Llyw y lluoedd,
  Drwy holl nefoedd wen a llawr,
Sy'n llywyddu holl naturiaeth,
  Gyd yn ol ei Arfaeth fawr,
Wrth ei arch mae'r mellt yn hedeg
  Drwy yr hoywdeg wybren fry,—
Enaid anian oll yn gyfan,
  Gryna gan ei daran gry'.

4 Gallu dwyfol yr Anfeidrol
  Dduw trag'wyddol, nefol Ior,
Ymddangosai yn bur helaeth,
  Cyn cre'digaeth haul na llo'r,
Ym modoldeb y cor nefol,
  Sydd o fewn i'r duwiol dir,
Yn rhoi'r clodydd eirian, gwiwrydd,
  I'w Creawdydd, Perydd pur.

5 Goralluoedd mawr anfeidrol,
  Tragywyddol Ior y nef,
Ynt ogyfuwch mewn eithafoedd
  Yn ei holl weithredoedd ef;
Yr un gallu fu'n bodoli
  'R holl gre'digaeth fwyngu fawr,
O'r abwydyn hyd y bydoedd
  Sydd yn lluoedd uwch y llawr.

6 Mae llywyddiaeth Ior yn odiaeth
  O fewn ei lywodraeth lân,
Ryw uwchafoedd uwch amgyffred
  Ei gre'duriaid fawr a mân;
'N ol ei Arfaeth a'i Ragluniaeth
  Mae pob goruchwyliaeth gref,
Tuag atom mewn wedd orau,
  Plygwn ninnau iddo ef.

CARDIFF * PUBLIC * LIBRARIES
767.6 W

7 Fal yr oe'nt o flaen y diluw,
Felly heddyw ddynolryw;
Eu pechodau oe'nt anhydyn,
Yn cyhoeddi'n erbyn Duw;
Yna'r diluw yno'u daliodd,
Ac a'u boddodd bob yr un,
Onid yr wyth enaid hyny,
Ddarfu gredu yn gytun.

8 Unwedd ydyw ato'r awrhon,
Er rhybuddion dwysion, da,
Byw'n annuwiol mae'r hil ddynol,
Yn eu pechod chwerwol chwa;
Er cael gweled barnedigaeth
Duw yn helaeth ar y wlad,
Ni effeithia dim, er hyny,
Iddynt gredu yn y gwa'd.

9 Mae arwyddion, ac argoelion,
I'w gwel'd wrth anwylion nef,
Fod ein gwaeddau ni drachefen,
Am fflangellau 'i wialen ef,
Mae'r duwiolion yn ymsymmud
Draw i wlad y gwynfyd clir,
Fal bo lle i Dduw yn farnol,
Daro yr annuwiol dir.

10 Ym mhlith ereill ga'dd eu symmud,
Draw i'r gwynfyd odd ein bla'n,
Mae John Phillips, hardd flodeuyn,
Eirian destyn hyn o gân;
E ddihangodd uwch tymhestloedd,
Fry i fro y llysoedd gwŷn,
Lle mae'n moli, heb ddystewi,
'R Oen fu'n gwaedu ar y bryn.

11 Nid oes adfyd, poen, na gofid,
Ar ei ysbryd ef yn awr,
Dim ond chwareu'r Alaw newydd,
Mewn llawenydd uwch y llawr,
Cofio 'i daith yn yr anialwch,
Mewn dyddanwch heddwch hir,
Draw ar fanau 'r gwawl ysblennydd,
Oddifewn i'r dedwydd dir.

12 E ddych'mygwn y munydau,
Pan oedd angau'n gwneyd ei waith,
Ac ei enaid ar ysgogn
Draw i'r fwyngu ardal faith,
Fod y bydoedd dirifedi
Sy'n pelydru drwy y nen,
Yn llefaru, "Ymagorwch
A gollyngwch ef uwch ben!"

13 Ysgogiadau yr ysbrydoedd,
Sydd o gylch yn lluoedd llawn,
Ydynt rai o'r pethau rhyfedd,
Sydd i ni'n ddirgelaidd iawn;

Dichon iddynt fod yn ymyl,
Yn filiynau maith di ri',
Ond nis gallant ('r wyf yn credu)
Ymddangosu byth i ni.

14 Hwyrach fod ei enaid yntau,
Mewn rhyw ysgogiadau mawr,
Yn ehedeg oddiamgylch,
Drwy'r awyrgylch uwch y llawr,
Ac yn gweled ei gyfeillion,
A'i anwylion mwynlon mâd,—
Gweled goror Aberaeron,
Lle mae'i dirion Fam a'i Dad.*

15 Gwel'd yn olau ei berth'nasau,
Draw ar lanau'r weilgi laith,
A'r Athrofa † lle bu'n dysgu,
'N blentyn gwiwgu lawer gwaith;
Gwel'd y lleoedd y pregethodd
Grist a'n prynodd ar y pren,
Megys golau Efengylydd,
Yma'n ufydd is y nen.

16 Gwel'd y manau bu'n myfyrio,
Ac yn ymboenydio'n fawr,
O fewn Gweinidogaeth hylwydd,
Iesu Llywydd nef a llawr,
Gwel'd dan wenu mae ef heddy'
Lanau Teifi lwysgu lân,
Gwel'd 'Bro Emlyn,'‡ effrawl ddyffryn,
Lle bu'n enyn Dwyfol dân.

17 Addysgiadau fil o weithiau,
Gafodd ef yn mlodau'i oes,
Er gwybodaeth a dirnadaeth,
Yn athrawiaeth Crist a'i groes:
Dwys gynghorion, dwys reolau,
Mewn nodweddau golau, gwiw,
Gafodd gan ei fwyn Rieni,
Tra bu yn eu teulu'n byw.

18 Effaith hyny ddarfu'i ganlyn
Draw i derfyn hardd ei daith,
Effaith hyny arno heddy'
Sydd yn nhrag'wyddoldeb maith;
Llawer gweddi ga'dd ei dyrchu
Gyda thaerni fynu i'r nef
Gan ei Dad a'i Fam anwylaf
Dros ei enaid gwerthfawr ef.

* Gofynodd ei Wraig iddo unwaith, cyn ei farwolaeth, ychydig, A fyddai yn dda ganddo weled rhai o dylwyth ei Dad? Gwedodd yntau y byddai yn dda ganddo weled ei anwyl Fam; Ond, ebe fe, na flinwch o barth hyny, e fyddaf fi yno yn bur fuan. Af heibio yno wrth fyned adreu!!

† Yr Athrofa sydd o dan olygiad ei dduwiol a'i barchedig Dad, y Parch. T. Phillips, D. D., Neuaddlwyd.

‡ Mae yn hysbys i'r cyffredin yr arferai y Parch. J. P. enwi ei hun a'r ffug-enw 'Ioan Bro Emlyn' ambell waith yn y Cyhoeddiadau Misawl.

19 Teimlai ogwydd er yn blentyn,
'Ddod i ganlyn Iesu gwiw,—
Pan yn dair-ar-ddeg ymunwys,
Gyda phobol Eglwys* Dduw
Yn ei unfed-flwydd-ar-bymtheg,
Dyna'r adeg gyntaf bu,
Yn ymroddi i gyhoeddi
Mwyn Efengyl Iesu cu.

20 Gwedi hyny dair o flwyddi,
Gwnaeth ef adu Gwlad ei Fam,
Modd y dawai fel Dysgedydd,
Yn fwy celfydd ar bob cam;
Cychwyn wnaeth ef i'r Drenewydd,
Lle bu bedair blwyddyn faith,
Dan olygiad Edward Davis,
Athraw medrus at y gwaith.

21 Wedi treulio yn bur effro,
Ei flynyddau yno i ben,
Fe'i hordeiniwyd yn Weinidog
Eglwys enwog y Drewen;
Yno'n wresog, nid yn ddiog,
Bu'n odidog dros ei Dduw,
Yn cyhoeddi dan lawenu
Gennadwri'r Iesu gwiw.

22 Heb ond enyd o lawenfyd
Yma yn ei fywyd brau,
Daeth afiechyd idd ei anian,†
Nes yn fuan ei wanhau;
Pump o flwyddi bu heb adu
Ei anwylgu Eglwys glyd,—
Rhaid oedd myned, a rhoi ffarwel
Iddynt oll, a'u gadael gyd.

23 Y mae galar fwy na goelych,
Os gwnawn edrych ar bob llaw;
Mawr yw galar ei gyfeillion
Yn Drewen a Seion ‡ draw;—
Nentydd, glenydd, bronydd, bryniau,
Llysiau, blodau oll y sy,
Mewn rhyw drydar dros y ddaear,
Dan arwyddion galar du.

24 Mae sain nodau galarnadau
O gylch Pen'rallt-tybiau || 'nawr,
Wrth adgofio mwyn sirioldeb
Gwedd ei wyneb ar y llawr;
Cofio am ei hardd agweddiad,
A'i ymddygiad difrad dwys,

* Derbyniwyd ef yn Aelod Eglwysig yn Neuaddlwydd.

† Yr afiechyd, pa un achlysurodd iddo roddi fynu bregethu oedd, Methiant yn ei lais a'i beiriannau ymadroddawl, yr hwn hefyd a'i dilynodd tra yn y fuchedd hon.

‡ Bryn Seion, agaws i Drewen, yr hon Eglwys a gorpholwyd ganddo ef ei hun.

|| Y Ty yn mha un y lletyai pan oedd yn Drewen.

Ddwg ei holl gyfeillion hawddgar
Dan ryw alar dirfawr bwys.

25 Y mae degau, oes ugeiniau,
Fu'n ei gyfeillachau ef,
Draw ar lân y Weilgi* donog,
Yn hiraethog iawn eu llef;
Ei gyfrinach oedd gariadus,
Ac yn felus gan bob rhai,
Mewn cynnulliad cyfarfodau,
Fil o weithiau yn ddi lai.

26 Dwys gynghorai bawb i garu
'n Arglwydd Iesu yn y byd,
Drwy bob tywydd fel eu gilydd,
O iawn grefydd oll i gyd;
Aberth Iesu oedd ei destyn,
Pan oedd yma ar y llawr,
Aberth Iesu byth heb dewi,
Fydd e'n nhrag'wyddoldeb mawr.

27 Drwy ryw drefniad, doeth Ragluniad,
Dirgel fwriad Ior ei Naf,
E ga'dd alwad fel Athrawydd,
I Athrofa 'Ngwlad yr Haf;†
Yn ei wythfed-flwydd-ar-hugain,
Yn dra llawen yno'r aeth;
Etto 'chydig ga'dd o wynfyd,
Gan afiechyd byddai'n gaeth.

28 Er yn mhell o'r man lle'i ganwyd,
Nis gadawyd wrtho'i hun,
Ca'dd Ymgeledd‡ dduwiol ddawnus,
Fal mae'n weddus i bob un;
Etto, ennyd fer fu'r bywyd,
Yn y mwyn siriolfyd hyn,
Saethau angau mewn llawn ingoedd,
A'i trosglwyddodd trwy y glyn.

29 Mewn wedd fuan darfu hedeg,
Ei fer adeg oll i ben,—
Naw-ar-hugain o flynyddoedd,
Oedd pan nofiodd hwnt i'r llen,
Oedran Iesu'r amser hyny,
Oedd, yn ol a wedynt hwy,
Ddeunaw cant, a'u cyfri'n gywir,
Gyda phedwar wyth a dwy.

30 Rhai wythnosau cyn i oriau
Gwawr y borau ddod i ben,
Iddo hedeg ar iach aden,
Heb un niwlen uwch y nen,

* Glan Mor Ceredigion, lle cafas ei eni a'i fagu.

† Somersetshire.

‡ Buan wedi iddo fyned i Wlad yr Haf, e briododd yno a Merch dra nodedig o barth ei rhinweddau o bob natur, yr hon fu yn ymgeledd ragorol iddo, yn neillduol yn ei gystudd diweddaf.

E symmudodd angau sydyn
Draw o'i flaen ei blentyn cu,—
Ond maent heddyw gyda'u gilydd,
Mewn llawenydd yn y llu.

31 Y mae pob peth yn bur odiaeth
Yn nhrefnidiaeth Arglwydd Ior,
Trefnu geni, trefnu marw,
Tros derfynau tir a mor;
Nid â undyn dros y terfyn
Roddwyd iddyn' gan eu Duw,
Rhaid yw marw, myn'd i'r ceufedd,
Dyna ddiwedd dynolryw.

32 Adeg Phillips ddaeth i derfyn,—
Mewn wedd sydyn darfu 'i daith,
Rhaid oedd myned a bodoli
Oddifewn i'r cyfwng maith;
Ar ddydd Sabboth ca'dd ei eni,
Ar ddydd Sabboth darfu fyw,
Mewn diderfyn Sabboth etto,
Mae'n preswylio gyda Duw.

33 Y mae adgofiadau gwiwlan,
Mewn naws dyddan nos a dydd,
Yn effeithio dirfawr ddagrau.—
Degau sydd a'u bronau'n brudd,—
Cofio 'i eiriau mwyn toddedig,
Pa mor isel-frydig oedd,
Pa mor serchog y traddodai
Ei bregethau in' ar g'oedd.

34 Ffarwel Phillips dduwiol, ddawnus,
Er mor anghysurus yw,
Mwy ni'th welaf haf na gauaf,
Mewn wedd fwynaf dros dy Dduw;
Mwy ni'th welaf yn Drenewydd,
Mwy ni'th welaf yn Drewen,
Yn cyhoeddi'r Aberth hwnw,
Drwy'r hwn fu farw ar y pren.

35 Diau cofir drwy'r Deheudir,
A'r Gogledd-dir oll o'r bron,
Am seiniadau 'i lais treiddiadawl,
Tra bo'r bel ddaearawl hon;
Ysgogiadau 'i ddawn nefolwych,
Wnai yn fynych eurwych waith;
Cof am dano fydd gan ddegau,
Draw ar fanau 'r nefoedd faith.

36 Duw Ior haeledd fo'u hymgeledd,
Ac yn goledd cymmwys cu,
Yn Drewen ac yn Brynseion,
I'w anwylion yno sy';
Rhyw un etto gaffo 'i ethol,
Fyddo'n ol ei reol ef,
Er cynnorthwy i Seion deulu,
'Ddringo fyny tua'r nef.

37 Ffarwel Phillips !—mwy ni'th welaf
Ar y ddaear hygar hon,
Mewn Cwrdd Cwarter na Chymmanfa,
Gyda'r Teulu 'n gwledda 'n llon;
Parch* yn gufwyn yma gefaist,
Cyd a buaist ar y llawr,
Parchus fyddi yn oes oesoedd,
Oddifewn i'r nefoedd fawr.

38 Ei gyfeillion drwy holl Walia† † *Wales*, Cymru.
Sydd y dyddiau yma'n drist,
Na alerwch, mae e, cofiwch,
'Nawr yn heddwch Duw a Christ;
Ond addasach i chwi, 'n hytrach,
Wylo'n amlach am eich bai,
Fal cyrhaeddoch fryniau gwynfyd,
Gyda'r Etholedig rai.

39 Ei Rieni sy'n galaru,
O waith colli 'u plentyn cu,
Cym'rwch galon—nid rhaid galar,
Er ei fod mewn daear ddu,
E ddaw borau egyr dorau,
Dryllir rhwymau angau a'r bedd,
Pryd y cewch ei weled etto,
(Er gofidio) yn ngwlad yr hedd.

40 Magwyd ef mewn wedd hyfrytaf,
Yn mynwesau 'i Dad a'i Fam,
Yn dra chulwys yr ymgelent,
Ac ei cadwent rhag cael cam;
Er y cyfan rhaid boddloni,
I lywyddiaeth Brenin nef,
Ef a roddodd ef a ddygodd,
Bendigedig fyddo Ef.

41 O Salina,‡ paid galaru, ‡ Ei Wraig.
Dan lawenu cwyd dy ben,
Yn dra buan cei fyn'd adreu,
Hwnt i gaerau'r nefoedd wen;
Duw fo'n gymmorth it' fucheddu,
Drwy gydweddu ar y llawr,
A'r rheolau cywir hyny,
Roddwyd in' gan Iesu mawr.

42 Wrth roi heibio 'rwy'n dymuno,
Rhad Duw etto atom oll,
Fel addaser ein heneidiau
I well lle heb un ar goll;
Brysio wnelo'r borau hyny,
Cawn heb dewi fod yn nghyd,
Yn cydganu Haleluia,
Byth i'r Bod a lywia'r byd.—Amen.

* Herwydd ei foneddigeiddrwydd digyffelyb, parchid ef yn fawr gan bob Enwadau Crefyddol a'i hadwaenai, drwy Gymru a Lloegr.

J. L. Brigstocke, Argraffydd, Caerfyrddin.